**Julie James AC/AM**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Leader of the House and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/JJ/0429/18

Mr M. Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mick.Antoniw@cynulliad.cymru

20 Gorffennaf 2018

Annwyl Mick,

Ysgrifennais atoch ym mis Ionawr a mis Mawrth ynghylch defnyddio pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n rhan o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU ("y Ddeddf"). Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i argymhelliad 4 yn adroddiad eich Pwyllgor – "*Craffu ar y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018: materion gweithredol*" – a gyhoeddwyd ar 10 Gorffennaf.

Hefyd, ysgrifennais atoch ym mis Mehefin gan ddweud yn y llythyr hwnnw fod Llywodraeth Cymru yn fodlon caniatáu i Weinidogion y DU wneud rheoliadau cywiro technegol nad ydynt yn ddadleuol mewn meysydd sydd wedi eu datganoli o dan y Ddeddf, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, a hynny oherwydd yr amgylchiadau hynod anarferol sy'n bodoli gan fod y DU yn ymadael â'r UE.

Ar y sail hon, mae swyddogion wedi bod yn gweithio'n hynod o galed i ddatblygu cynlluniau cyflawni. Maent yn hyderus eu bod wedi nodi'r holl offerynnau domestig sydd wedi deillio o'r UE ac sy'n cynnwys meysydd sydd wedi eu datganoli i Gymru, er mwyn eu cywiro i sicrhau eu bod yn weithredol ar ôl Brexit. Bellach rwy'n credu bod ganddynt syniad clir o'r hyn y mae angen ei gywiro.

Yn fy llythyr ym mis Mehefin, dywedais hefyd fod oddeutu 400 o offerynnau domestig sy'n deillio o'r UE sy'n cynnwys diffygion sy'n debygol o fod angen sylw. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys yr holl ddeddfwriaeth ddomestig y mae angen ei chywiro, p'un a yw wedi ei gwneud yng Nghymru ai peidio. Er mwyn cywiro'r diffygion yn yr offerynnau hyn, bydd angen i Weinidogion Cymru wneud oddeutu 50 o offerynnau statudol.

Mae'n bwysig nodi ei bod bron yn sicr y bydd amrywiad yn y ffigur a roddwyd ar gyfer offerynnau statudol sy'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, er ei bod yn annhebygol y bydd nifer yr offerynnau domestig sy'n deillio o'r UE y mae angen rhoi sylw iddynt yn newid yn sylweddol. Mae swyddogion yn parhau â'u gwaith i roi offerynnau statudol mewn grwpiau, ond mae'n anodd rhoi disgrifiad clir o'r gwaith hwn gan y bydd yn cael ei lywio gan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Nghymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bolisïau a phenderfyniadau drafftio a fydd yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU a'n hymateb ninnau.

Mae diwygiadau i Atodlen 2 o'r Ddeddf, a wnaed ym mis Mai, hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gywiro diffygion yn offerynnau'r UE sy'n berthnasol yn uniongyrchol, mewn achosion penodol. Mae swyddogion yn gweithio gyda swyddogion Llywodraeth y DU i nodi'r ffordd orau o wneud newidiadau i'r offerynnau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r gwaith wedi ei ddatblygu digon i ganiatáu imi ddarparu nifer ar gyfer yr offerynnau statudol a allai gael eu cynhyrchu yn y maes hwn.

Mae swyddogion yn parhau i weithio ar y ffordd orau o gyflwyno cywiriadau ac o nodi pryd y bydd angen iddynt osod yr offerynnau statudol cywiro yn eu meysydd a’u blaenoriaethu. Rydym yn bwriadu dechrau gosod yr offerynnau statudol cywiro yn yr hydref.

Byddai Ysgrifennydd y Cabinet a finnau'n fodlon cyfarfod â chi yn anffurfiol.

Yn gywir,



**Julie James AC/AM**
Arweinydd y Tŷ a’r Prif Chwip
Arweinydd y Tŷ a’r Prif Chwip